**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

**MEMORANDWM CYWIRIADAU YN UNOL Â**
**RHEOL SEFYDLOG 24.13**
**Rheoliadau Cynghorau Iechyd Cymuned (Diwygio) 2005**

**Y cefndir**

Cafodd y Rheoliadau drafft hyn eu gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 2 Chwefror 2005, eu hystyried gan y Pwyllgor Busnes ar 1 Chwefror 2005 a chan y Pwyllgor Deddfau ar 22 Chwefror 2005.

Nododd Cynghorwyr Cyfreithiol y Pwyllgor Deddfau, cyn i'r Pwyllgor gyfarfod, fod angen gwneud newidiadau drafftio penodol ac awgrymwyd diwygiadau yn sgil hynny.

Cyflwynwyd adroddiad ar y diwygiadau a chytunodd y Pwyllgor Deddfau arnynt yn ei gyfarfod ar 22 Chwefror 2005, ac maent i'w hystyried gan y Cynulliad fel a ganlyn:-

**Diwygiad 1**

**Rheoliad 2**

1. Yn Rheoliad 2(1), yn lle'r geiriau "Ar ôl y diffiniad o "corff sy'n penodi" ("appointing body") yn Rheoliadau 1(2) o'r Prif Reoliadau, mewnosodir y diffiniad canlynol" rhoddir y geiriau canlynol - "Yn rheoliad 1(2) o'r Prif Reoliadau mewnosodir y diffiniad canlynol yn y man priodol yn ôl trefn yr wyddor — ".

**Diwygiad 2**

**Rheoliad 4**

1. Yn rheoliad 4 o'r testun Cymraeg yn unig, yn lle'r geiriau “bwrdd penodi" a "corff penodi", rhodder yn y naill achos a'r llall y geiriau “corff sy’n penodi”.

**Diwygiad 3**

**Rheoliad 10**

1. Yn rheoliad 10(1) o'r testun Saesneg yn lle'r gair “member” rhoddir y gair “members”.

**Y Rheswm dros y Diwygiadau**

Mân wallau drafftio neu wallau teipograffyddol.

**CHWEFROR 2005**

**BRIAN GIBBONS**

**GWEINIDOG CYNULLIAD**